

Fersiwn athrawon

Canllawiau

Bwriad y deunyddiau hyn yw **cynnig enghreifftiau o'r mathau o brofion a chwestiynau** fydd yn cael eu defnyddio yn y Profion Darllen Cenedlaethol statudol.

Ceir pedwar prawf darllen yn Saesneg a phedwar prawf darllen yn Gymraeg (profion gwreiddiol ydynt, nid cyfieithiadau) i'w defnyddio ym mis Mai. Fe'u defnyddir gyda grwpiau blwyddyn fel a ganlyn – Blynyddoedd 2/3, Blynyddoedd 4/5, Blynyddoedd 6/7 a Blynyddoedd 8/9.

6/7 a Blynyddoedd 8/9.

Serch hynny, **at ddibenion y deunyddiau sampl hyn**, ac er mwyn hwyluso pethau i ysgolion, cyflwynir y deunyddiau fel a ganlyn.

- Blynyddoedd 2/3 – fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon.
- Blynyddoedd 4/5/6 (deunyddiau cynradd) – fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon.
- Blynyddoedd 7/8/9 (deunyddiau uwchradd) – fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon.

Lluniwyd y deunyddiau i'w defnyddio ochr yn ochr â'i gilydd – sef fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon yn goleuo ei gilydd.

Ceir **darn darllen a chwestiynau arno** yn fersiwn y dysgwyr. Gellid lawrlwytho'r ddogfen a'i defnyddio gyda'r dysgwyr yn y dosbarth – naill ai'n gopiau caled neu'n electronig, er enghraifft, ar fwrdd gwyn rhyngweithiol.

Yn fersiwn yr athrawon, ceir copi o fersiwn y dysgwyr â nodiadau arno. Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am bwrpas y mathau gwahanol o gwestiynau yn ogystal ag egluro sut dylai'r dysgwyr ateb y cwestiynau er mwyn dangos eu gwir allu. Gellir lawrlwytho fersiwn yr athrawon a'i argraffu neu'i ddefnyddio'n electronig.

Noder: nid yw'r deunyddiau sampl yn cynrychioli'r prawf cyfan. Eu pwrpas yw enghreifftio'r dull cwestiynu a ddefnyddir.

Mae deunyddiau sampl wedi'u haddasu ar gael i gefnogi dysgwyr â nam golwg neu ddysgwyr sydd fel arfer yn defnyddio print bras yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r deunyddiau i gyd ar gael mewn Print Bras wedi'i Addasu (maint B4, ffont pwynt 18) neu Braille (Gradd 2). Mae deunyddiau i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 4 i 9 ar gael hefyd mewn fformat Print Mwy (maint B4, ffont pwynt 14).

Os ydych wedi archebu profion wedi eu haddasu ac os hoffech dderbyn copïau o'r deunyddiau enghreifftiol hyn, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Archebu Profion ar 01753 637270 neu welsh-test-orders@nfer.ac.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fersiwn athrawon

Blynyddoedd 2–3



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nodiadau i athrawon

Bydd y dysgwyr yn derbyn un llyfryn prawf fydd yn cynnwys y darnau darllen a'r cwestiynau.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 a 3, bydd y prawf yn dechrau gyda chyfres o gwestiynau cwblhau brawddegau ac yna ddau ddarn darllen a chwestiynau arnynt. Caniateir hyd at 60 munud i wneud y prawf i gyd, ond gellir rhannu'r prawf yn gyfnodau llai os dymunir. Er enghraifft, gall y dysgwyr dreulio 10 munud yn gwneud y dasg cwblhau brawddegau a chael egwyl fer cyn treulio 25 munud ar y darn darllen cyntaf a'r cwestiynau. Gellir trefnu iddynt gael egwyl hirach cyn iddynt gwblhau rhan olaf y prawf mewn 25 munud.

Cyflwynir y darnau darllen dros sawl tudalen a'r cwestiynau perthnasol yn ymddangos o dan yr is-ran briodol bob tro. Ar ddiwedd y prawf darllen efallai bydd cwestiynau sydd yn gofyn i ddysgwyr ystyried y darn darllen yn ei gyfanrwydd cyn dewis ateb. Serch hynny, ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau, bydd angen i'r dysgwyr gyfeirio at y darn darllen uwchben y cwestiwn ei hun er mwyn dod o hyd i'r ateb. Dylid cyfarwyddo'r dysgwyr i ddarllen y darn **cyfan** cyn dechrau ateb y cwestiynau. Ar gyfartaledd bydd angen iddynt ateb 8–12 cwestiwn ar bob darn darllen.

Ar ochr dde'r dudalen, ceir blwch marc yn dangos sawl marc sydd am bob cwestiwn.

Wrth gyflwyno'r prawf i'r dysgwyr, dylid gosod egwyddorion clir am yr hyn y dylent ei wneud os ydynt yn dymuno newid ateb. Dylai hyn adlewyrchu eich arfer dosbarth arferol, e.e. defnyddio rhwbiwr, neu roi llinell drwy ateb anghywir ac ysgrifennu ateb newydd.

Dylid defnyddio'r nodiadau hyn ochr yn ochr â fersiwn y dysgwyr o'r deunyddiau sampl.

Mae'r deunyddiau sampl yn cynnig enghreifftiau o'r cwestiynau cwblhau brawddegau ac un darn darllen a chwestiynau arno. Mae chwe math gwahanol o gwestiynau yn y prawf. Ceir enghraifft o bob un yma, yn ogystal ag eglurhad o sut y dylid eu hateb.

Cwblhau Brawddegau

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un. Ticiwch y bocs wrth ochr y gair **gorau** i lenwi'r bwlch. Does dim rhaid i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

- 1 Mae Deio'n gweld y dref ar y _____.
cap ☐ map ☒ mam ☐ mae ☐ tap ☐
- 2 Rwy'n mynd i nofio bob nos _____.
Awst ☐ dydd ☐ Mai ☐ lau ☒ ddoe ☐
- 3 Roedd y beic yn costio can _____.
pen ☐ punt ☒ pwys ☐ paent ☐ pwrs ☐
- 4 _____ o beli sydd yn y bocs?
Pa ☐ Pwy ☐ Faint ☒ Ble ☐ Pryd ☐

trosodd

Deunyddiau sampl

3

Fersiwn y dysgwyr

Cwblhau Brawddegau

Yn adran gyntaf y prawf bydd angen i ddysgwyr ymateb i gyfres o frawddegau â gair coll ym mhob un. Cynigir pum opsiwn a bydd angen i'r dysgwyr ddewis y gair **gorau** i gwblhau'r frawddeg. Bydd angen iddynt roi tic wrth ochr y gair a ddewisir. Dylid rhoi tic wrth ochr un gair yn unig ym mhob brawddeg. Dylid atgoffa dysgwyr nad oes rhaid iddynt ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

*Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd **mewn bocs** ar dudalennau 4–6.*

Wedyn, throwch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.

Bwyd i'r adar

Weithiau, yn y gaeaf, does dim digon o fwyd i'r adar gwyllt. Rydyn ni'n gallu helpu'r adar drwy roi bwyd allan yn yr ardd. Dyma ddau aderyn sy'n hoffi dod i'r ardd i gael bwyd.



Robin goch



Titw Tomos las

Dyma beth sydd ei angen i wneud tŵr bwydo adar: poteli plastig neu boteli llaeth plastig, cortyn, hadau, siswrn, darn o bren.

Mae'n rhaid i oedolyn eich helpu gyda'r gwaith torri!



1a Pryd mae'r adar yn dod i'r ardd i gael bwyd?

Ticiwch 1.

- yn y gwanwyn ☐
- yn yr haf ☐
- yn yr hydref ☐
- yn y gaeaf ☒

1a
1m

1b Beth sydd ei angen i wneud y tŵr bwydo adar?

Ticiwch 2.


- cerdyn ☐ glud ☐
- siswrn ☒ cortyn ☒
- papur ☐

1b
1m

Amlddewis

Dylai'r dysgwyr ddilyn y cyfarwyddiadau yn y cwestiwn yn ofalus iawn er mwyn sicrhau eu bod yn ticio'r nifer cywir o opsiynau.

Yn y rhan fwyaf o gwestiynau bydd angen iddynt roi tic wrth ochr un ateb, ond mewn ambell gwestiwn gofynnir iddynt roi tic wrth ochr mwy nag un. Nodir y nifer a ddisgwylir mewn print trwm bob tro.



2 **Dewiswch a chopïwch un gair** sy'n dangos ble mae'r adar yn dod i gael bwyd.

(i'r) ardd

Cynllun marcio enghreifftiol

- 2 Rhowch **1 marc** am:
- (i'r) ardd.

(1 marc)

Dewis a chopïo

Bydd rhaid i'r dysgwyr gyfeirio at y darn darllen er mwyn dod o hyd i'r ateb yn y math hwn o gwestiwn. Dylent ddewis gair neu grŵp o eiriau o'r testun a'i gopïo ar y llinell ateb.

Dylai dysgwyr sicrhau eu bod yn dilyn y cyfarwyddiadau yn y cwestiwn yn ofalus iawn a chopïo'r hyn y gofynnir amdano'n unig (fel arfer nodir nifer y geiriau/ymadroddion sydd eu hangen mewn print trwm). Bydd rhai cwestiynau'n gofyn i ddysgwyr ddewis a chopïo geiriau unigol (fel yn yr enghraifft), ond bydd eraill yn gofyn am sawl gair.

Dylid egluro i'r dysgwyr y gall copïo mwy na'r hyn y gofynnir amdano (e.e. sawl gair neu frawddeg gyfan) olygu y bydd eu hatebion yn cael eu marcio'n anghywir. Gall dysgwyr hefyd gael eu cosbi am aralleirio yn hytrach na chopïo'r union eiriau o'r testun.

Gellid cynnwys y geiriau mewn cromfachau yn y cynllun marcio ond nid ydynt yn orfodol i gael marc. Er enghraifft, gellid rhoi 1 marc am unrhyw un o'r canlynol:

- ardd/gardd
- neu
- i'r ardd.

- 3 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** bob tro.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

	Cywir	Anghywir
Does dim angen help oedolyn i wneud y tŵr adar.		✓
Gallwch chi ddefnyddio poteli plastig i wneud y tŵr.	✓	
Bydd tŵr adar yn helpu'r adar yn yr haf.		✓
Dydy'r robin goch ddim yn dod i'r ardd.		✓



trosodd

Deunyddiau sampl


5

Fersiwn y dysgwyr

Cywir neu anghywir

Ar ôl darllen pob gosodiad, dylai'r dysgwyr roi tic wrth ochr pob un i ddangos a yw'r gosodiad yn 'gywir' neu'n 'anghywir'.

Bydd angen tic yn y man cywir ym mhob rhes i ennill marciau llawn, ond os bydd dau farc ar gael, rhoddir un marc am atebion rhannol gywir.



- 4 Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn o 1–5. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

- Pan fydd y botel yn torri, defnyddiwch botel newydd i wneud tŵr arall. 5
- Torrwch tua deg twll bach yn y botel. 2
- Rhowch ddarn o bren drwy'r botel. 1
- Hongiwh y botel mewn coeden yn yr ardd. 4
- Llenwch y botel â hadau. 3

Deunyddiau sampl

6


Fersiwn y dysgwyr



Trefnu

Mae'r math hwn o gwestiwn yn cael ei ddefnyddio i asesu gallu dysgwyr i grynhoi ac i ddangos eu dealltwriaeth o'r testun cyfan. Bydd angen i ddysgwyr ad-drefnu'r gosodiadau i gyd-fynd â'r drefn a nodir yn y darn darllen. Rhoddir un rhif fel man cychwyn.

- 5 Tynnwch 3 llinell i ddangos beth yw pwrpas pob eitem.



- 6 Dewiswch y gair/geiriau gorau i gyd-fynd â'r darn darllen drwy roi tic wrth eich dewis bob tro.

a) Ar ôl darllen y darn hwn rydych chi'n gwybod sut i wneud
tŷ ☐ **bath** ☐ **tŵr** ☒ **nyth** ☐
i'r adar.

b) Bydd y botel yn llawn
cnau. ☐ **hadau.** ☒ **bara.** ☐ **dŵr.** ☐



Diwedd y deunyddiau sampl.

Deunyddiau sampl

7

Fersiwn y dysgwyr

Cyfateb

Dylai'r dysgwyr ddarllen y cyfarwyddiadau'n ofalus i sicrhau eu bod yn tynnu'r nifer cywir o linellau. Mae'n bosibl y bydd un llinell yn cael ei gwneud yn barod fel enghraifft. Bydd angen i'r dysgwyr gyfateb pob rhan o'r cwestiwn er mwyn ennill marc.

Cyfannu (cloze)

Mae'r math hwn o gwestiwn yn debyg i'r un amlddewis, ond yma gofynnir i'r dysgwyr gwblhau brawddegau. Yn aml, defnyddir cwestiwn fel hwn i brofi dealltwriaeth o'r testun cyfan.

Dylai'r dysgwyr ddarllen y darn darllen cyfan cyn rhoi tic wrth yr opsiwn gorau bob tro er mwyn cwblhau'r frawddeg.

